Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

16 Awst 2021

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI: 'REVIEW OF POLICING DOMESTIC ABUSE DURING THE PANDEMIC'

Rwyf wedi darllen yr adroddiad hwn â diddordeb, am fod maes plismona wedi wynebu amgylchiadau anodd iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a fy mod i a'r Prif Gwnstabl wedi rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn ystod y cyfnod hwn.

Er i'r 17 mis diwethaf fod yn hynod anodd i bawb, rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gadw pobl De Cymru'n ddiogel. Mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi deillio o'r cydweithio agos hwn, yn arbennig o ran mynd i'r afael â cham-drin domestig.

Mae'n galonogol iawn gweld rhai o'r datblygiadau a roddwyd ar waith yn Ne Cymru, megis rhaglen DRIVE, yn cael sylw yn yr adroddiad hwn. Rwyf o'r farn bod y canfyddiadau yn cadarnhau'r gwaith a wnaed gennym i sicrhau bod ein gwasanaeth plismona lleol yn gweithio cystal ag y gall wneud mewn cyfnod mor heriol.

Mae rhaglen DRIVE yn Ne Cymru yn ddull gweithredu arloesol, sy'n herio ymddygiadau pobl sy'n cyflawni trais a cham-drin domestig mewn modd risg uchel, gan achosi niwed mawr. Gwelwyd ei bod yn lleihau achosion o drais, fictimeiddio ac aildroseddu. Dengys canfyddiadau gwerthusiad annibynnol a gynhaliwyd gan Brifysgol Bryste dros gyfnod o dair blynedd, fod rhaglen DRIVE wedi lleihau lefelau o niwed a risg i ddioddefwyr yn sylweddol.

Rwy'n falch hefyd fod yr Arolygiaeth wedi gweld bod atal troseddau wrth wraidd ein dull o gadw De Cymru'n ddiogel. Mae amddiffyn pobl sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth, felly rwy'n arbennig o falch o weld bod ein ffocws clir ar amddiffyn dioddefwyr a gweithio gyda throseddwyr wedi cael sylw.

Gallaf gadarnhau fy mod eisoes wedi gwneud ymholiadau ynghylch nifer o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad yn ystod y flwyddyn. Mae fy nhîm, sy'n cynnwys Arweinydd Strategol ar gyfer Bregusrwydd a Dioddefwyr, yn gweithio'n ddiwyd gydag asiantaethau partner i wneud yn siŵr y caiff dioddefwyr eu cefnogi a'u bod yn gallu rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a bod modd iddynt dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder o ran anfodlonrwydd dioddefwyr.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales

Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig deall yn well y rhesymau pam y gallai dioddefwyr fod yn anfodlon parhau ag ymchwiliad, ac i'r heddlu wneud popeth o fewn ei allu i gefnogi dioddefwyr i wneud hynny. Mae'n hanfodol sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol eu profiad, gan gynnwys pan fyddant yn aros i unrhyw achosion llys gael eu dwyn i dreial. Bu'r Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn ystyried y mater hwn i bob dioddefwr yn ystod y flwyddyn. Byddaf yn gwneud yn siŵr bod yr heddlu yn gweithio i roi hyn, yn ogystal â'r argymhellion eraill a wnaed yn yr adroddiad, ar waith, ac rwyf wedi cael sicrwydd bod gwaith eisoes wedi dechrau.

Mae'r Prif Gwnstabl yn ategu hyn yn y sylwadau a wnaed ganddo ef ar yr adroddiad:

'Bu'r gwaith o barhau i gyflawni gwasanaethau plismona yn ystod y pandemig yn heriol iawn, ac mae wedi arwain at nifer o amgylchiadau newydd ac annisgwyl. Gwelsom fod angen i ni addasu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau newydd hyn.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr ymateb cyfunol ac arloesol a gafwyd ledled Cymru a Lloegr, a'r arferion gorau a ddatblygwyd o ganlyniad i hyn. Byddwn yn sicrhau y caiff gwaith manwl ei wneud ar sail yr argymhellion, ac y cânt eu defnyddio i ddatblygu ein strategaeth at y dyfodol.

Mae'r heddlu yn parhau yn gwbl ymroddedig i'r gwaith o ddarparu gwasanaeth plismona o ansawdd a gofal o safon uchel i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn Ne Cymru, yn ogystal ag ymwelwyr. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar amddiffyn a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig fel un o'n prif flaenoriaethau.'

Nodwyd argymhellion yr adroddiad gennyf, a chredaf eu bod yn cyfleu'n addas yr hyn y mae angen i heddluoedd ei wneud i sicrhau diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig. Byddaf yn parhau i oruchwylio'r broses o'u rhoi ar waith yn Ne Cymru.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English